Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

14 Mawrth 2018

Annwyl Kirsty

Diolch i chi am eich diweddariad, a ddaeth i law ar 28 Chwefror 2018, yn dilyn eich ymateb i argymhelliad 7 y Pwyllgor yn ei adroddiad am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

Mae'n ymddangos bod eich ymateb yn cadarnhau bod y cyllid i gefnogi deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn wir yn cael ei dynnu o'r Grant Gwella Addysg ac y bydd yn cael ei ddarparu o'r Grant Cynnal Refeniw sydd heb ei neilltuo. Nododd y Pwyllgor eich diweddariad yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018 a phenderfynodd ysgrifennu atoch i godi nifer o bwyntiau ar y mater hwn.

Mae'r pwyntiau hyn yn ymwneud yn gyntaf â'r penderfyniad i ariannu'r maes darpariaeth hwn drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn hytrach na'r Grant Gwella Addysg, ac yn ail y drefn ar gyfer symud yr arian hwn o'r un grant i'r llall.

**Y penderfyniad i ddadneilltuo ymhellach y cyllid ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig**

Fel y gwyddoch o ymchwiliad y Pwyllgor ynghylch y *Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig*, rydym yn pryderu am effaith ar y grwpiau hyn o ddisgyblion yn sgil cyfuno grantiau a oedd wedi'u neilltuo â'r Grant Gwella Addysg o 2015-16 ymlaen. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad o'r dystiolaeth a ddaeth i law, ar ôl uno'r grantiau unigol blaenorol â'r Grant

Gwella Addysg, fod diffyg gwaith monitro ynghylch sut y mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi deilliannau addysgol y dysgwyr hyn a diffyg gwerthusiad o'r effaith y mae'n ei chael.

Fe wnaethoch chi dderbyn nifer o'r argymhellion sydd wedi'u hanelu at wella'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Grant Gwella Addysg, yn benodol mewn perthynas â dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, fe wnaethoch chi ymrwymo i gryfhau fframwaith y Grant Gwella Addysg, gan dderbyn mewn egwyddor argymhelliad y dylai fframwaith o'r fath gyfeirio'n llawer mwy penodol at y deilliannau a fwriedir ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mai 2017, dywedoch:

> Un o'r argymhellion rwy'n cytuno'n arbennig o gryf ag ef yw nad yw'r fframwaith perfformiad addysg presennol yn ddigon cadarn. Nid ydyw, yn syml, ac nid oedd modd cuddio rhag hynny yn ystod sesiynau'r pwyllgor. (...)
>
> Mae ['adroddiad gwerthfawr' y Pwyllgor] wedi cryfhau fy ngallu i ysgogi pobl i weithredu yn yr adran, yn enwedig mewn perthynas â monitro.

Fodd bynnag, ymddengys na fydd y 'fframwaith canlyniadau mwy cadarn' hwn yn y dyfodol yn cynnig unrhyw fuddion i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, o ganlyniad i'r penderfyniad i dynnu'r cyllid perthnasol o'r Grant Gwella Addysg. Pan argymhellodd y Pwyllgor y dylech ystyried a yw cyflwyno'r Grant Gwella Addysg wedi gwella canlyniadau i'r grwpiau hyn o ddysgwyr a pharhau i gadw llygad ar y model cyllido yn ystod y Cynulliad hwn, nid oeddem yn rhagweld flwyddyn yn ddiweddarach y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddadneilltuo ymhellach ac y byddai disgwyl i awdurdodau lleol ei ariannu o'r Grant Cynnal Refeniw.

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn 'ail-flaenoriaethu' cyllid llywodraeth leol drwy symud i ffwrdd o grantiau penodol tuag at y Grant Cynnal Refeniw, mae'r penderfyniad hwn yn ein siomi ac rydym yn credu ei fod yn mynd yn erbyn y trywydd a nodwyd yn eich ymateb i'n hymchwiliad.

Rydym yn nodi mai un o ddibenion ailflaenoriaethu cyllid llywodraeth leol yw gwarchod cyllidebau ysgolion rheng flaen. Fodd bynnag, fel y nodir ymhellach yn y llythyr hwn, nid yw'n amlwg i ni sut y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r £13 miliwn a dynnwyd o'r Grant Gwella Addysg drwy gyfrwng y Grant Cynnal Refeniw. Felly, byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro a gwerthuso canlyniadau cyllid y Grant Cynnal Refeniw i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig?**
- **Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn sgil argymhellion y Pwyllgor, yr ydych wedi'u derbyn, o ran effaith a chanlyniadau'r Grant Gwella Addysg ar y grwpiau hyn o ddysgwyr, gan fod y cyllid bellach y tu allan i'r Grant Gwella Addysg?**
- **A allwch chi ddarparu copi i'r Pwyllgor o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y cynhaliodd Llywodraeth Cymru cyn gwneud y penderfyniad i newid y ffordd y darperir cyllid ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr?**
- **Sut y gwnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru wrth iddi wneud y penderfyniad hwn?**

**Symud cyllid o'r Grant Gwella Addysg i'r Grant Cynnal Refeniw**

Yn ogystal â phryderon y Pwyllgor ynghylch y penderfyniad i ddadneilltuo'r cyllid ymhellach ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, rydym yn arbennig o bryderus ynghylch sicrhau tryloywder o ran yr union ffordd y mae'r arian hwn yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw.

Mae'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2018-19 (tabl Excel 9) yn dangos bod gwerth y Grant Gwella Addysg yn gostwng gan £15 miliwn, o £133 miliwn yn 2017-18 i £118 miliwn yn 2018-19. Yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft, fe ddywedoch chi wrth y Pwyllgor bod £2 filiwn o hyn yn ostyngiad gwirioneddol, tra bod £13 miliwn yn cael ei dynnu o'r Grant Gwella Addysg ac yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg sut y mae hyn wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2018-19 gan nad yw wedi'i restru ymhlith y trosglwyddiadau grant yn nhabl 8 y setliad.

Yn eich gwybodaeth fwyaf diweddaraf i'r Pwyllgor, dywedoch nad yw 'hyn' (rydym yn tybio bod hyn yn golygu tynnu £13 miliwn o'r Grant Gwella Addysg) yn gyfystyr â throsglwyddiad grant ac felly nad yw'n ddarostyngedig i'r un prosesau ac ystyriaethau dosbarthiadol. Rydym yn deall mai'r broses arferol pan fydd cyllid grant yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw yw bod yr Is-grŵp Dosbarthu yn argymell sut i wneud hyn. Enghraifft o hyn yw bod modd ychwanegu Asesiad Seiliedig ar Ddangosydd newydd i'r wybodaeth a gyhoeddir fel rhan o'r setliad llywodraeth leol er mwyn dangos mewn egwyddor sut y cyfrifwyd y Grant Cynnal Refeniw. Dyma sydd wedi digwydd yn achos nifer o grantiau a drosglwyddwyd yn 2018-19, gan gynnwys Grant y Gweithlu Cymdeithasol, Grant Byw'n Annibynnol Cymru ac elfen gwastraff y Grant Refeniw Sengl. Mae'n ymddangos nad yw hyn wedi digwydd yn achos symud elfen y Grant Gwella Addysg sy'n cefnogi addysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a lleiafrifoedd ethnig.

Mae hyn yn peri cryn bryder i'r Pwyllgor. Er ei bod yn amlwg bod yr £13 miliwn wedi cael ei dynnu o'r Grant Gwella Addysg, nid yw'n amlwg a fydd yr arian hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, ac os felly, beth fydd y drefn ar

gyfer gwneud hyn. Yn eich papur i'r Pwyllgor am y gyllideb ddrafft (tudalen 39), dywedoch fod gostyngiad o £13.145 miliwn yn y Grant Gwella Addysg yn 2018-19 yn ariannu trosglwyddiad i'r cronfeydd canolog wrth gefn.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod yna rai pryderon ymhlith llywodraeth leol bod risg y bydd dan anfantais yn ariannol, h.y. y bydd disgwyl iddi barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn o ddyraniadau'r Grant Cynnal Refeniw ond heb ychwanegiad gweledol nac amlwg i'r cyllid hwnnw. Fel yr amlygwyd yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft (llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, dyddiedig 13 Tachwedd 2017), mae elfen ysgolion y Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu £1.5 miliwn (0.1%) yn unig rhwng 2017-18 a 2018-19.

At hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu, heb y cyllid angenrheidiol, na all awdurdodau lleol barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, neu y byddant yn torri'r gwasanaethau hyn yn sylweddol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu £5 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2018-19 i liniaru'r effaith ar brif awdurdodau trefol Cymru, a £2.5 miliwn arall yn 2018-19 i hwyluso dulliau gweithredu rhanbarthol o gefnogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Rydych yn dweud mai cyllid ychwanegol yw hwn, ond nid yw'n amlwg at beth y mae'n ychwanegol, o ystyried y diffyg eglurder ynghylch a yw'r arian a dynnwyd o'r Grant Gwella Addysg bellach yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw neu yng nghronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru.

Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- **A allwch chi roi eglurder pellach ynghylch a yw'r £13.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw a beth fydd y drefn ar gyfer gwneud**

hyn? *(Rydych yn dweud yn eich ymateb nad trosglwyddiad grant yw 'hwn' ond a allwch chi gadarnhau beth yw ystyr 'hwn' yn y cyd-destun hwn?)*

- A allwch gadarnhau a yw'r £5 miliwn rydych wedi'i ddyrannu yn 2018-19 ar gyfer awdurdodau trefol ar gael i Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn unig, a sut y mae'n cael ei ddyrannu?
- Pa drefniadau sydd ar waith i ariannu darpariaeth awdurdodau lleol eraill sydd â dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, neu ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig? *(Er mai Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe sydd â'r crynodiadau mwyaf o'r grwpiau hyn o ddysgwyr, mae awdurdodau lleol eraill hefyd yn darparu gwasanaethau i'r dysgwyr hyn. Gellid dadlau ei bod yn fwy heriol a chostus yn gyfrannol i sicrhau gwasanaethau o safon mewn ardaloedd heb 'fàs critigol' o ddysgwyr.)*
- A allwch chi roi manylion ynghylch sut y caiff y £2.5 miliwn sy'n cael ei ddyrannu yn 2018-19 i hwyluso dulliau gweithredu rhanbarthol ei ddyrannu rhwng y pedwar rhanbarth?
- A allwch gadarnhau mai Wrecsam fydd yr awdurdod arweiniol yn rhanbarth y Gogledd (ac os nad yw'n derbyn rhan o'r £5 miliwn, beth yw'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw)?
- A yw'r dyraniadau o £5 miliwn a £2.5 miliwn ar ben yr £13.1 miliwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud sydd ar gael yn y Grant Cynnal Refeniw neu a yw mewn gwirionedd yn ostyngiad o £5.6 miliwn o'r lefel bresennol o gyllid? *(Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig egluro hyn gan eich bod wedi gwahaniaethu yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft rhwng y 'gostyngiad' o £2 filiwn yn y Grant Gwella Addysg yn 2018-19 a 'thynnu' yr £13.1 miliwn i'w ddarparu yn y Grant Cynnal Refeniw.)*

- **Ai dyraniadau untro yw'r £5 miliwn a'r £2.5 miliwn yn 2018-19? Pa gefnogaeth a fydd yn cael ei darparu'n rheolaidd i ariannu'r maes darpariaeth hwn?**

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at eich ymateb i'r pwyntiau y mae'r llythyr hwn yn eu codi, gan gynnwys y cwestiynau penodol. Byddem yn gwerthfawrogi ymateb cynnar o ystyried pa mor agos yw'r flwyddyn ariannol newydd.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**